Urdd Gobaith Cymru
Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd: **Rheolwr Nawdd Urdd Gobaith Cymru**

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, a thrwyddo i Brif Weithredwr yr Urdd

Cyflog: Ar raddfa 9 Strwythur Cyflog yr Urdd (£26,996 i £31,296). Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol (£27,806)

Oriau gwaith: 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol gweithio y tu allan i oriau arferol swyddfa yn achlysurol, a cheir amser dyledus yn ôl am hyn.

Lleoliad: Aberystwyth, Bangor, Gwersyll Glan-llyn neu Gaerdydd.

Gwyliau blynyddol: Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo 3 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Cyfnod prawf: Bydd cyfnod prawf o 6 mis.

Pensiwn: Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith.

Gwiriad CRB: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB.)

Archwiliad meddygol: Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

Cefndir

Rydym yn chwilio am Reolwr Nawdd i Urdd Gobaith Cymru a fydd yn gyfrifol am ddenu nawdd o ffynonellau masnachol tuag at Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau eraill y mudiad. Bydd y Rheolwr Nawdd yn gyfrifol am gadw cofrestr ganolog o geisiadau a wneir i ffynonellau amrywiol ar ran yr Urdd, ac am gynghori Cyfarwyddwyr Adrannau eraill am y ffynonellau sydd ar gael. Bydd angen bod yn weinyddwr da, a bod yn berchen ar sgiliau rhyngbersonol a doniau perswâd arbennig.

Mae swydd y Rheolwr Nawdd yn allweddol er mwyn sicrhau datblygiadau yng ngweithgarwch Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Bydd gan y

Rheolwr Nawdd rôl o ran sicrhau parhad i gefnogaeth ariannol i weithgareddau presennol, yn ogystal â dod o hyd i gyllid i ariannu gweithgareddau ychwanegol. Bydd targedau clir yn cael eu gosod, a bydd monitro cyson o'r targedau hynny.

Er mwyn cyflawni'r gwaith bydd angen brwdfrydedd dros amcanion yr Urdd, a dealltwriaeth o bwysigrwydd ein gwasanaethau i ieuenctid Cymru. Bydd angen y gallu i feddwl yn gyflym ac i addasu pecynnau nawdd yn ôl yr ymateb gan gwmnïau.

Prif Ddyletswyddau

1. Datblygu a gweithredu strategaeth codi arian oddi wrth noddwyr masnachol tuag at waith Urdd Gobaith Cymru. Yn ymarferol bydd hyn yn golygu codi nawdd masnachol tuag at Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, yn ogystal ag adrannau eraill.

2. Cytunir ar darged yn flynyddol ar gyfer denu nawdd masnachol tuag at waith Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Er enghraifft, ar gyfer Eisteddfod Bae Caerdydd 2009 gosodir targed o £220,000. Yn ogystal, disgwylir i'r Rheolwr ddenu £10,000 o nawdd masnachol yn flynyddol tuag at waith adrannau eraill yr Urdd.

3. Bydd angen hyrwyddo'r Urdd oddi fewn i'r gymuned fusnes, a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r mudiad. Bydd angen paratoi cyflwyniadau i ddarpar noddwyr a pharatoi deunyddiau hyrwyddo a marchnata i noddwyr. Cyfrifoldeb y Rheolwr fydd rheoli perthynas yr Urdd â chwmnïau masnachol, gan gynnwys dod i gytundebau, a sicrhau fod y trefniadau cywir i gydnabod y nawdd yn cael eu gwneud. Bydd hyn yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau ar y cynlluniau a gafwyd.

4. Bydd angen cydweithio â gwirfoddolwyr lleol yn ardal yr Eisteddfod, a'r Rheolwr fydd yn gyfrifol am yr holl drefniadau noddwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ogystal â'u safleoedd ar y Maes.

5. Cynnal cofrestr o noddwyr presennol a phrosiectau a ariennir drwy gymorth nawdd a grant a sicrhau fod cyfathrebu clir oddi fewn i'r Urdd ynglŷn â'r wybodaeth.

6. Darparu gwybodaeth i Gyfarwyddwyr adrannau ar ffynonellau grant posibl, gan gynnwys ffynonellau cyhoeddus, loteri, Ewropeaidd ac oddi wrth ymddiriedolaethau.

7. Bydd disgwyl i'r person a benodir ymgymryd â thasgau priodol eraill sydd yn cyfrannu at ddatblygu'r mudiad a chynrychioli'r mudiad mewn digwyddiadau allanol.

8. Y gallu i arwain a gweinyddu'r partneriaethau a sefydlir gyda noddwyr masnachol, gan sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i'r noddwr trwy gydol y daith. Mae'n bosibl y bydd elfen o gymorth gweinyddol ar gael i

gynorthwyo i gyflawni'r swydd yn y cyfnodau prysuraf, er enghraifft, er mwyn cydlynu gohebiaeth i noddwyr yn y cyfnod cyn yr Eisteddfod.

Gofynion

1. Y gallu i gyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn broffesiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg a'r gallu i wneud cyflwyniadau yn hyderus. Bydd angen y gallu i ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2. Byddai profiad blaenorol o ddatblygu ceisiadau am grant, neu o ddenu nawdd o fantais.

3. Bydd angen bod yn weinyddol drefnus ac effeithiol.

4. Sgiliau cyfrifiadurol gan gynnwys Word ac Excel.

5. Gradd neu gymhwyster cyfatebol.

Pwyllgorau

Staff: bydd y Rheolwr Nawdd yn aelod o dîm rheoli Adran yr Eisteddfod (ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr, y Dirprwy, Trefnydd, y ddau Drefnydd Cynorthwyol a'r Rheolwr Maes a Busnes) sy'n cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac yn trafod materion a chyfeiriad cyffredinol yr ŵyl. Bydd hefyd yn mynychu o dro i dro, cyfarfodydd Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Urdd er mwyn trafod materion trawsadrannol (e.e. y gwersylloedd, gweithgareddau adran y maes, ayb).

Gwirfoddolwyr: mae'r Rheolwr Nawdd yn sefydlu panel bach o wirfoddolwyr yn lleol ym mhob dalgylch yr Eisteddfod er mwyn datblygu syniadau nawdd yn yr ardal o dan sylw. Bydd hefyd disgwyl o dro i dro, fynychu Pwyllgorau Gwaith yr Eisteddfod ynghyd â Bwrdd Busnes Canolog yr Urdd.

Ymgeisio

Os hoffai unrhyw ymgeisydd gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, mae croeso iddynt gysylltu ag Aled Siôn, Cyfarwyddwr Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau ar 01678 541 014; neu ei e-bostio aledsion@urdd.org Ceir mwy o fanylion am yr Eisteddfod a'r Urdd ar ein gwefan www.urdd.org

Rhaid i geisiadau, gan gynnwys ffurflen gais a llythyr ymgeisio, gyrraedd Cyfarwyddwr Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau erbyn **09:30 o'r gloch,** ar ddydd **Iau 18 Medi 2008** – aledsion@urdd.org, neu Swyddfa'r Eisteddfod, Gwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST.

Dylai ceisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y Swydd Ddisgrifiad.

Cynhelir y cyfweliadau ar brynhawn **ddydd Mercher 24 Medi 2008** yn Aberystwyth ac ar brynhawn **ddydd Gwener 26 Medi 2008** yng Nghaerdydd. A fyddai modd i chi nodi pa ddiwrnod sy'n gyfleus.